

PRIFYSGOL BANGOR

PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

Cyfarfod: 31 Ionawr 2018

Presennol: Yr Athro P Spencer (Cadeirydd), Mr S Barnard, Miss S Barnes, Mrs T Hibbert, Mr A Jones, Mrs M Lake, Dr J Latchford, Ms C Monks, Mr D Owen, Miss E Riches, Mr S Roberts, Yr Athro C Tully, Mrs E Parry Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

Ymddiheur -iadau: Dr L Jones, Mr W Jones

527. COFNODION

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 1 Tachwedd 2017.

528. MATERION YN CODI

Roedd yr holl faterion a oedd yn codi ar yr agenda.

529. ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU

529(a) Adroddiad yr Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydredd

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 22 Ionawr 2018 a nodwyd yr eitemau allweddol isod:

- i. *Gweithio gyda Ffynonellau Agored:* Yn 2017, ni ddefnyddiwyd yr elfen ymbelydrol 125I, a lleihawyd y defnydd o 32P gan brynu un ffynhonnell yn unig. Mae'r gostyngiad hwn o ganlyniad i'r prif grwpiau defnyddwyr yn nodi dewisiadau eraill an-ymbelydrol ar gyfer eu hymchwil.
- ii. Mae'r labordy ECW yn parhau i fod y labordy ymbelydredd prysuraf. Fel y cyfryw, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyfleusterau'r dyfodol, fel rhan o gynnig Ardal y Gwyddorau a Thechnoleg.
- iii. *Safonau Polisi Newydd/ Diwygiedig:* Trafodwyd y Defnydd Diogel o Ffynonellau Golau Ymbelydredd Optegol Artiffisial (ac eithrio laserau), Meysydd Electromagnetig (EMF) a'r Safon Polisi Defnydd Diogel o Laser, sy'n dod dan gylch gorchwyl ymbelydredd.
- iv. Cytunwyd y byddai Swyddog Diogelwch Laser y Brifysgol yn cael ei wahodd i'r Is-Bwyllgor nesaf.
- v. *Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddiol 2017 (IRR 2017):* Dyma'r newidiadau sylweddol sy'n effeithio ar y Brifysgol:
 - Gan ddibynnu ar y math o waith ymbelydredd a risgiau cysylltiedig, rhaid i sefydliadau'n awr 'hysbysu', 'gofrestru' neu gael 'cydsyniad' yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Bydd yn rhaid i'r Brifysgol 'Gofrestru' ei gwaith a 'Hysbysu' safleoedd gyda lefelau radon uwch na 300 Bq m-3 (cyfartaledd dros flwyddyn).

- Oherwydd gostyngiad sylweddol yn y ddos fwyaf a ganiateir i'r llygaid, efallai y bydd yn ofynnol i weithwyr ymbelydredd wisgo sbectol ddiogelwch i warchod rhag tasgiadau i'r llygaid. Gofynnwyd am gyngor gan Gynghorwr Amddiffyn rhag Ymbelydredd (RPA) allanol y Brifysgol. Mae dulliau gweithredu a chyfarwyddiadau diwygiedig wrthi'n cael eu datblygu.
 - Mae lefel gweithredu radon gweithle wedi gostwng o 400 Bq m-3 (wedi'i fesur fel sefyllfa 'achos gwaethaf' h.y. gaeaf) i 300 Bq m-3 (cyfartaledd dros flwyddyn). Gwnaed adolygiad o'r holl ganlyniadau radon blaenorol, i nodi mesuriadau radon yn agos i'r lefel gweithredu newydd, ac er mwyn canfod a oes angen cymryd camau pellach.
- vi. *Arolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwrthderfysgaeth Cymru*: Aeth yr arolygiad blynyddol o'r 'ffynhonnell wedi'i selio' yn dda gyda sgôr o '0', sy'n golygu nad oedd unrhyw faterion.
- vii. *Radiograffeg Wrecsam - Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd*: Penodwyd Dr Darren Wood yn ffurfiol fel yr RPS newydd ar gyfer y cyfleuster.

529(b) Adroddiad yr Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 18 Ionawr 2018. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. *Gwaith gydag Organebau a Addaswyd yn Enetig*: Derbyniodd y pwyllgor adroddiad gan y Pwyllgor Lleol ar gyfer Addasiadau Genynnol a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2018. Ar hyn o bryd, mae 25 o brojectau yn cynnwys GMO; gyda dau broject arall i ddod, gan ddibynnu ar gyllid llwyddiannus. Ac eithrio un project, mae pob project arall sy'n ymwneud ag addasu genetig yn rhai Dosbarth 1 neu'n golygu gwneud addasiadau nad oes yn rhaid hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn eu cylch.
- ii. *Hysbysu Sylweddau gyda Rheoliadau Ychwanegol*: Bydd y Swyddog Diogelwch Biolegol yn ysgrifennu at staff y Coleg yn gofyn iddynt ddatgan pa sylweddau 'perthnasol' sydd ganddynt, yn cynnwys 'nodi'n gadarnhaol' a ydynt yn cadw sylweddau hysbysadwy.
- iii. *Archwiliad Iechyd*: Mae nifer staff y Coleg Gwyddorau Naturiol sy'n derbyn archwiliad iechyd yn codi. Mae hyn o ganlyniad i'r gwaith cynyddol gydag anifeiliaid, a'r amlygiad posibl cysylltiedig i 'dander' ac alergenau eraill, ynghyd â gweithgarwch cynyddol yn Henfaes a chyfleusterau Biogyfansoddion.
- iv. *Damweiniau a Digwyddiadau*: Mae cyflenwr wrthi'n gwneud archwiliad ar ôl amheuaeth bod silindr nwyon arbennig yn cynnwys y nwy 'anghywir' (h.y. nid oedd y nwy yn ddi-ocsigen, fel yr oedd yn dangos) yn ystod arbrawf. Cytunwyd i gysylltu gyda phrifysgolion eraill i holi am eu profiadau nhw gyda chyflenwyr yn darparu nwyon anghywir
- v. *Ymweliad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)*: Bydd Arolygwr Arbenigol GM yr HSE, sy'n gwneud arolygon ar ran Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Prydain (DEFRA), yn ymweld ar 27 Chwefror 2018. Gwahoddir swyddogion Undebau Llafur i gwrdd â'r Arolygwr os dymunant. Nodwyd y bydd Uwch Arolygwr o'r HSE yn dod gyda'r

Arbenigwr GM.

- vi. *Gweithredu lwfer mygdarthau a darparu tystysgrif* Mynegwyd pryderon nad oedd nifer o lwferau mygdarthau'n gweithio'n effeithlon, a bod yr amser a gymerwyd i ddatrys y problemau'n cynyddu.
- vii. *Gwasanaethau Eiddo a'r Campws (PACS)*: Trafodwyd y gostyngiad yn nifer y staff PACS, yn arbennig yn adran y gwasanaethau mecanyddol a thrydanol. Er bod cynlluniau ar waith i recriwtio staff newydd, nodwyd bod risg y bydd oedi gyda rhai eitemau a gwasanaethau. Cafodd cydweithwyr eu hannog i fonitro gwasanaethau a allai effeithio arnynt, a chefnogi PACS gymaint ag sy'n bosibl drwy roi gwybod am bryderon ac unrhyw beth sy'n cael ei hepgor yn amserol.

530. GRŴP TASG IECHYD A DIOGELWCH

Mae'r grŵp tasg wedi cyfarfod unwaith ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Dr Kevin Mundy, Ysgrifennydd y Brifysgol, yw cadeirydd newydd y Grŵp Tasg.
- ii. *Cyfyngiadau ar Adnoddau, FSB*: Goblygiadau ar Wasanaethau Eiddo a Champws (PACS) ac yn ehangach. Nodwyd y canlynol:
 - Mae'r Grŵp Tasg PACS yn parhau i oruchwylio a chefnogi'r adran yn ystod y cyfnod hwn o newid. Nodwyd hefyd y penodwyd Ymgynghorydd i werthuso a helpu i ailstrwythuro'r adran (PACS).
 - O ran effaith sefydliadol ehangach cyfyngiadau ar gyllideb a newid sefydliadol, nodwyd bod yr FSB wedi ystyried pob ymateb i'r ymgynghori, ac fe'i sicrhawyd na fydd newidiadau'n cael effaith negyddol ar iechyd a diogelwch.
- iii. *Polisi Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau*: Ymdrinnir â materion myfyrwyr eisoes drwy Reoliadau Myfyrwyr, felly caiff y polisi hwn ei adolygu a'i addasu fel ei fod yn berthnasol i staff a chontractwyr yn unig.
- iv. *Aelodau'r Grŵp Tasg*: Mae'n debygol y bydd aelodaeth y grŵp hwn yn cynyddu i adlewyrchu newidiadau strwythurol a defnyddio arbenigedd staff yn well.
- v. *Absenoldeb Salwch Ymysg Staff*: Roedd canran yr absenoldebau tymor hir oherwydd salwch yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond mae'r methodoleg cyfrifo yn dibynnu ar absenoldebau tymor byr, sy'n is na chyfartaledd y sector. Os cymerir golwg mwy realistig o absenoldebau tymor byr, mae'r absenoldebau tymor hir yn unol â'r sector. Ar ôl gweithredu strwythur newydd y Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol, cynhelir cyfres o sesiynau hyfforddi i staff proffesiynol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Polisi newydd Absenoldeb oherwydd salwch yr Adran Adnoddau Dynol, a fydd yn ymdrin â hysbysu a chofnodi absenoldebau.
- vi. *Hyfforddi staff, Cadw Cofnodion*: Mae trafferthion yn parhau yn y rhan fwyaf o Golegau a Gwasanaethau Proffesiynol gyda chofnodi sesiynau cynefino iechyd a diogelwch lleol i staff, a hyfforddiant arall yn gysylltiedig â diogelwch. Mae'r drafferth yn gysylltiedig yn bennaf gyda 'chyfyngiadau defnyddwyr' gyda'r

system cofnodion staff electronig.

- vii. *PACS*: Ceisir cael sicrwydd nad yw ymadawiadau staff ynghyd â defnyddio sawl meddalwedd rheoli data gwahanol, yn effeithio'n negyddol ar drefniadau cydymffurfio.

531. ADRODDIAD AR FATERION YSTADAU (PACS)

Cyflwynwyd papur, a nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- a. *Mesurau Lliniaru Radon, Arduddy*: Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r contractwr a'r is-contractwr arbenigol sy'n gyfrifol am y system lliniaru radon, a chytunwyd ar gynllun gweithredu.
- b. Mae Derwyn Owen yn Gyfarwyddwr Gweithredol am y 12 mis nesaf, yn ogystal â dirprwyo fel Pennaeth Eiddo a Phennaeth Cyfalaf.
- c. Mae'r Brifysgol wedi penodi Mr John Stevens fel Ymgynghorydd Trawsnewid a Pherfformiad i weithio gyda'r tîm PACS i gyflwyno rhaglen o drawsnewid: cymell, mentora, hyfforddi a recriwtio.
- d. Mae Alwyn Jones yn ymadael fel Rheolwr Asedau a Gofod, sydd hefyd yn cynnwys swydd Swyddog Tân. Bydd y cyfrifoldebau am reoli tân yn cael eu rhannu rhwng aelodau presennol y tîm yn y tymor byr.
- e. Mae ail-archwiliadau asbestos yn parhau – mae hyn yn cymryd mwy o amser nag y bwriadwyd gan fod angen niferoedd asedau penodol PLANON yn awr fel rhan o adroddiad yr ail-archwiliad. Mae'r Ymgynghorydd Asbestos wedi penodi syrfëwr arall gyda chynlluniau i gwblhau pob ail-archwiliad erbyn diwedd Chwefror 2018.
- f. Mae cyfarfodydd rheoli cydymffurfio yn parhau, gyda chronfa ddata ganolog newydd a gwell ar gyfer adroddiadau a chofnodion cydymffurfio yn cael ei chyflwyno i'r tîm.
- g. Mae integreiddio a datblygu PLANON yn parhau i fod yn ffocws ynghyd â defnyddio'r Dyfeisiau Llaw/PDA.

Cafwyd trafodaeth yn dilyn hyn. Nodwyd y bydd y Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch yn parhau i gefnogi PACS gymaint ag sy'n bosibl yn ystod y cyfnod trawsnewid, a bydd yn cyfleu'r neges ynghylch pwysigrwydd recriwtio o fewn y tîm PACS mewn pryd i'r Cyngor.

GWEITHREDU: Cadeirydd

532. ADRODDIAD Y GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH (HSS)

Rhoddwyd crynodeb o waith arfaethedig yr HSS, a nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- i. **Safonau Polisi Newydd**; bydd dwy Safon Bolisi newydd, sef:
 - *Meysydd Electromagnetig (Ymbelydredd anioneiddiol)*
Nodir y gofynion ar gyfer defnyddio a rheoli offer sy'n cynhyrchu meysydd electromagnetig sylweddol (EMF) yn ddiogel, yn unol â'r Rheoliadau Rheoli Meysydd Electromagnetig yn y Gwaith.

- *Defnydd Diogel o Ffynonellau Golau Ymbelydredd Optegol Artiffisial Peryglus (ymbelydredd anïoneiddiol)*

Nodir y gofynion ar gyfer defnyddio ffynonellau golau ymbelydredd optegol artiffisial peryglus yn ddiogel, yn unol â'r Rheoliadau Rheoli Ymbelydredd Optegol Artiffisial yn y Gwaith. Mae'r Polisi'n eithrio "laserau" yn benodol, yr ymdrinnir â nhw gan Safon Bolisi benodol.

ii. **Safonau Polisi Diwygiedig/a Ddiddymwyd:**

- *Diogelwch Laser (ymbelydredd anïoneiddiol) - Adolygiad*

Bwriedir gwneud adolygiad o bwys o'r Cod Ymarfer Diogelwch Laser cyfredol, a symleiddio'r Safon Bolisi i adlewyrchu'n briodol ofynion y Rheoliadau Rheoli Ymbelydredd Optegol Artiffisial yn y Gwaith.

- *Plant ar dir y Brifysgol - Diddymu*

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch 2016 y Brifysgol yn cynnwys adran yn benodol ar gyfrifoldeb dros ddiogelu plant sy'n ymweld â'r Brifysgol, neu'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Brifysgol (Adran 14). Fel y cyfryw, cynigir bod y Polisi cyfredol ar gyfer diogelwch plant ar dir y Brifysgol yn cael ei ddiddymu.

iii. **Archwiliadau i Systemau Rheoli Iechyd a Diogelwch:**

- *Undeb y Myfyrwyr (UM)*

Mae'r archwiliad o reolaeth gyffredinol o iechyd a diogelwch yr UM wedi dechrau. Bydd yr archwiliad yn defnyddio llai o asesiadau 'manwl' o weithgarwch risg, gan adlewyrchu ar y gwaith a wnaed gyda'r UM yn y blynyddoedd diwethaf i asesu a rheoli risg.

- *Y Ganolfan Rheolaeth*

Bydd archwiliad o brosesau cyffredinol y Ganolfan Rheolaeth yn dechrau pan fydd archwiliad yr UM bron â gorffen/wedi gorffen. Bydd hyn yn cynnwys detholiad o asesiadau 'manylach'. Er enghraifft, diogelwch ceginau a digwyddiadau.

iv. **Colegau a Byrddau Cyfarwyddwyr Newydd:**

- *Dogfen Reoli Gychwynnol*

Cynhyrchwyd dogfen ddrafft i adnabod gweithgareddau a swyddi staff y bydd angen eu nodi yn ystod camau cychwynnol Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol newydd. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf ag elfennau allweddol rheoli iechyd a diogelwch yn ystod newid sefydliadol, ac yn ceisio sicrhau bod canolbwynt/ pwynt cyswllt ar gyfer meysydd pwnc-risg allweddol yn parhau lle bo'n briodol.

- *Dogfennau Rheoli Iechyd a Diogelwch*

Mae dogfennau templed drafft o bolisiau a dulliau gweithredu yn cael eu datblygu i symleiddio a chyd-fynd ar draws dyletswyddau perthnasol a nodir yn Adran 7 o Bolisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol. Bydd y dogfennau yn rhoi cyfarwyddyd cliriach ar y cyfrifoldebau a bennir i Benaethiaid Ysgolion a staff eraill.

- v. **Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol:** Mae angen diweddarau tua 50% o'r Asesiad Risg lefel-brifysgol craidd. Bydd elfen sylweddol yn cynnwys

asesu cydymffurfiad cyfreithiol rhai isadeiledd a systemau adeiladau'r Brifysgol a reolir gan/drwy PACS.

- i. **Amgylcheddol:** Mae'r HSS wedi mabwysiadu cyfran sylweddol o swydd Rheolwr yr Amgylchedd blaenorol er mwyn cydymffurfio gyda chyfraith amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys goruchwyllo'r gwaith o gydymffurfio gyda System Rheoli'r Amgylchedd ISO14001. Nodwyd y bydd System Rheoli'r Amgylchedd yn cael archwiliad allanol ym mis Hydref 2018.

533. EITEMAU GAN AELODAU'R PWYLLGOR

Eitemau a godwyd dan 'Unrhyw Fater Arall'.

534. UNRHYW FATER ARALL

Nodwyd yr eitemau canlynol:

- i. Oherwydd goblygiadau adnoddau o fewn PACS, adroddwyd bod rhai Ceisiadau Cynnal a Chadw yn cymryd sawl wythnos i'w datrys, gan arwain at eitemau, yn cynnwys ysbwriel yn hel mewn manau cyhoeddus, gan greu perygl posibl. Cytunodd Cyfarwyddwr Gweithredol Ystadau i godi'r mater o fewn y tîm Ystadau. Gofynnodd y Cadeirydd i DO adrodd yn ôl yn y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch nesaf.

GWEITHREDU: DO

- ii. Mynegwyd pryder ynghylch penderfyniad y Bwrdd Cynaliadwyedd Ariannol (FSB) nad oes angen Cynghorwr Iechyd a Diogelwch penodedig mwyach ar gyfer Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r Coleg Gwyddorau Dynol, gyda swydd a chyfrifoldebau'r Swyddog Iechyd a Diogelwch cyfredol yn cael eu cynnwys yn swyddi prysur eisoes Rheolwr y Coleg a Dirprwy Reolwr y Coleg. Cytunodd y Cadeirydd i godi hyn gyda'r Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch.

GWEITHREDU: y Cadeirydd

- iii. Diolchodd y Cadeirydd i Michele Lake, Ymarferwr Iechyd Galwedigaethol, am ei chefnogaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Rhoddodd y Pwyllgor hefyd ddiolch arbennig i Mr David Fordham am ei gefnogaeth i agenda iechyd a diogelwch y Brifysgol ac i waith y Pwyllgor.

Cynhelir y Pwyllgor nesaf ddydd Mercher, 23 Mai 2018 am 10am yn Ystafell y Cyngor.